**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 14 Rhagfyr 2021**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne gysylltiad personol ag eitem rhif 7 ar yr agenda ac yntau'n Llywodraethwr Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Borthyn. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | CYMERADWYO CAIS CRONFA CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU – ETHOLAETH DYFFRYN CLWYD | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cefnogi thema'r cais, y prosiectau arfaethedig i gael eu cynnwys yn y cais a gwerth dangosol eang pob prosiect, a*<br><br>*(b) dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a Phennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd a'r Arweinydd, i fireinio'r prosiectau a chostau'r prosiect fel y bo angen a chytuno i gyflwyno cais i Lywodraeth y DU gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer etholaeth Dyffryn Clwyd.* |
| **6** | ASESIAD O ANGHENION LLETY SIPSIWN A THEITHWYR SIR DDINBYCH 2021 | ***PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn*** *–*<br><br>*(a) cadarnhau ei gefnogaeth i'r dull a fabwysiadwyd i gyflawni Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych fel un cadarn ac un oedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru; a*<br><br>*(b) cymeradwyo fersiwn ddrafft Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2021 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru;* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(c) dirprwyo awdurdod i'r Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Cymunedau Mwy Diogel a Cham-drin Domestig i gytuno ar fân newidiadau golygyddol sydd eu hangen i'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a*<br><br>*(d) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau*. |
| **7** | CYNLLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo cyflwyno cynllun i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr 2022 gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad i lunio Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd.* |
| **8** | SAFON OFYNNOL ARFAETHEDIG AR GYFER GWAITH ADEILADU NEWYDD A PHROSIECTAU ADEILADU ESTYNIAD / AILWAMPIO MAWR CYNGOR SIR DDINBYCH SY'N CYNNWYS TARGEDAU AR GYFER CARBON MEWN DEFNYDD AC WEDI'I YMGORFFORI | ***PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn*** –<br><br>*(a) cytuno i fabwysiadu a gweithredu Safon Adeiladu CSDd ar gyfer gwaith adeiladu newydd annomestig a phrosiectau adeiladu estyniad/ailwampio i fodloni targedau carbon mewn defnydd ac wedi'i ymgorffori;*<br><br>*(b) bod rhaid gweithredu'r safon hwn mewn modd sydd yn cyd-fynd â nod y Cyngor i fod yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030, a*<br><br>*(c) y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **9** | SEFYDLU CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL GOGLEDD CYMRU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno mewn egwyddor bod swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael eu trosglwyddo ar ffurf cytundeb dirprwyo i Gyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru ar yr amodau canlynol;*<br><br>*(a) bod y fframwaith statudol y mae Llywodraeth Cymru yn ei lunio yn caniatáu ar gyfer* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *dirprwyo swyddogaethau gweithredol perthnasol i Gyd-bwyllgor Corfforaethol,*<br><br>*(b) bod Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru yn cytuno i sefydlu Is-bwyllgor, gan gytuno ar aelodaeth gyda'r Cyngor, i ymgymryd â swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.*<br><br>*Cynigir y trawsnewid yma er mwyn cyflawni model llywodraethu symlach, gan osgoi dyblygu. Bydd adroddiad manylach arall am y fframwaith a fydd yn cael ei weithredu yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod arall o'r Cabinet.* |
| **10** | AILDDATBLYGU HEN LYFRGELL PRESTATYN - DYFARNU CONTRACT | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo dyfarnu'r contract i Wynne & Sons Limited Construction yn ôl Adroddiad Argymhelliad Dyfarnu Contract (Atodiad 1 yr Adroddiad), a*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a chymryd yr Asesiad o'r Effaith ar Les i ystyriaeth (Atodiad 2 o'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **11** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2021/22 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, a*<br><br>*(b) cymeradwyo Sylfaen y Dreth Gyngor i osod cyllideb 2022/23 fel y manylir yn Atodiad 5 yr adroddiad.* |
| **12** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.* |